# Rheoli hyfforddiant ceffylau ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gysylltiedig â rheoli hyfforddiant ceffylau ifanc. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio torri a marchogaeth ceffylau.  Mae'r safon hon hefyd yn ymdrin â rheoli a goruchwylio addysg y ceffyl yn cynnwys cega, arwain a rhoi ar ffrwyn hir, mynd ar gefn a marchogaeth i ffwrdd a chyflwyno i'r offer torri, gwaith daear a mynd ar eu cefn.

Mae'r safon hon hefyd yn cynnwys derbyn disgyblaeth, symudiadau syml a gweithio yng nghwmni ceffylau eraill.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu a rheoli'r peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn
2. rheoli hyfforddiant ceffylau ifanc trwy ddatblygu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer y ceffyl
3. sicrhau bod y dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
4. gweithredu'r rhaglen dorri, briffio'r trinwyr a chadarnhau eu dealltwriaeth
5. rheoli a chydlynu cyflwyno'r ceffyl ifanc i'r broses dorri yn llwyddiannus
6. gwerthuso cynnydd y ceffyl yr holl amser, a chytuno ar unrhyw addasiadau sy'n ofynnol i'r rhaglen a'u gweithredu
7. sicrhau bod y cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a'r sefydliad perthnasol
8. defnyddio arferion gwaith sydd yn ddiogel ac yn unol â gweithdrefnau'r iard

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddatblygu cynllun ar gyfer hyfforddi ceffylau ifanc
2. pwysigrwydd gwerthuso ac addasu'r cynllun
3. egwyddorion hyfforddi ceffylau ifanc o wyth mis i fynd ar eu cefn ac or adeg y cânt eu marchogaeth i ffwrdd
4. y dillad a'r offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
5. y defnydd o offer arbenigol a defnyddio harneisiau neu harnais
6. diben arwain a rhoi ar ffrwyn hir yn y rhaglen
7. ceffylau sydd wedi eu heffeithio gan hyfforddiant gwael neu geffylau â phroblemau ymddygiad
8. effeithiau seicolegol a ffisiolegol y gall gweithgareddau torri eu cael ar y ceffyl
9. pryd i ddechrau'r rhaglen a chanlyniadau gorweithio ceffylau anaeddfed
10. effeithiau seicolegol newidiadau mewn amgylchedd ar y ceffyl
11. effaith cyflwyno ceffylau i symudiadau syml, o weithio yng nghwmni ceffylau eraill, dylanwadau allanol a thraffig
12. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
13. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
14. eich cyfrifoldebau yn unol a deddfwriaeth a chodau ymarfer lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Rheoli hyfforddiant ceffylau ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq403 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; hyfforddiant; rheoli |